# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 10ed o Ionawr, 2023** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Tabor, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Sianelen Pleming** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Sianelen Pleming **(SP)** bawb i'r cyfarfod. Dymunodd flwyddyn newydd dda i bawb.<br><br>YN BRESENNOL HENO ROEDD:<br>Sara Williams **(SW);** William Jones **(WJ);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Gethin Jones **(GJ)**; Lisbeth James **(LJ)**; Lois Fychan **(LF);** Cyng. Jina Gwyrfai **(JG)** a'r clerc Gillian Thomas **(GT);** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN:<br>Emlyn Williams **(EW**); Ynyr Ellis **(YE);** Olwen Roberts **(OR).** |
| **3.** | **COFNODION CYFARFOD RHAGFYR 2022** |
| | **a)** **<u>CYFLWYNO A MABWYSIADU</u>**<br>Diolchodd SP i Lois am baratoi cofnodion Rhagfyr. Cynigwyd yn gywir gan WJ gyda LJ yn eilio a phawb yn cytuno.<br><br>**b)** **<u>MATERION YN CODI</u>**<br><br>I. **TRAFFIG NANT GWRTHEYRN I LAWR Y LON I'R PENTREF (ANGEN TWMPATH WRTH YMYL TABOR?)**<br>Does gan y Cyngor Sir ddim bwriad i gyflwyno twmpathau ar y rhan yma o'r ffordd gan nid oes ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau'r angen am y ddarpariaeth.<br><br>II. **PARCIO TU ALLAN I'R SIOP (ARWYDD LLWYTHO YN UNIG)** –<br>Y Cyngor wedi cytuno i gychwyn proses ymgynghori ar y bwriad i gyflwyno cyfyngiad amser o flaen y siop.<br><br>III. **CYFFORDD GER Y SIOP - ARWYDDION STOP / GIVE WAY** –<br>Does gan y Cyngor ddim bwriad i newid y gyffordd ganlynol o Give Way i Stop gan nid yw'r gyffordd yn cydymffurfio a'r canllawiau perthnasol ar gyfer sustem Stop.<br><br>IV. **ARWYDDION 30 WRTH DDOD O NANT –**<br>Bydd cyfyngiadau cenedlaethol yn newid o 30mya i 20mya yn fis Medi 2023. Felly mi fydd y cyfyngiadau trwy'r pentref yn newid. Fel rhan o'r newid canlynol byddai modd rhoi sylw penodol i'r cyfyngiadau cyflymder ar y ffordd i Nant Gwrtheyrn.<br><br>V. **DIM ARWYDDO O GWBL AR LON RHOSYDD** –<br>Nid yw'r Cyngor Sir yn bwriadu cyflwyno arwydd ar y ffordd.<br><br>**VI.** **Y TWLL GER Y FYNWENT**<br>Y Cyngor Sir yn parhau i weld nad oes problem ar y ffordd.<br>Cytunodd yr aelodau bydd yn parhau i baru problemau gan ei fod yn arwain i'r fynwent ac mae tamaid anwastad yw'r broblem. Cytunodd GJ gael golwg a thynnu llun i'w rannu gyda'r Cyngor Sir. LJ am drafod y broblem ymhellach gyda pherchennog y Tŷ |

| | |
|---|---|
| | VII. **Y LLAIN TIR TRWY'R PENTREF (CEIR YN PARCIO A'I DROI YN FWD)**<br>EW wedi gofyn am addasiad i'r amcan bris i gynnwys y ddwy ochor. I'w drafod fis nesaf. |
| **4.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Dim i'w ddatgan |
| **5.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Popeth mewn cyflwr da |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | Dim i'w drafod |
| **7.** | **OR - TYLLAU AR Y LON WRTH GAE CHWARAE LLITHFAEN** |
| | Y clerc i anfon y gwyn ymlaen i Briffyrdd Dwyfor |
| **8.** | **CRONFA COSTAU BYW** |
| | Cronfa o arian yw hwn fel cymorth tuag at gostau byw i Gymunedau gan y Cyngor Sir a'r Llywodraeth.<br><br>Diolchodd SP i WJ a GJ am ddosbarthu llythyrau gwybodaeth ym Mhistyll. Roedd SP a GJ wedi eu dosbarth yn Llithfaen.<br><br>Adroddodd GJ bod 35 ymateb wedi eu derbyn rhwng y ddwy gymuned hyd yn hyn.<br>Roedd Cyfarfod wedi ei gynnal SP a GJ a Bethan Williams ple cytunwyd bydd pawb sydd wedi ymateb yn derbyn taleb i Siop y Groes. Nid oedd maint y talebau wedi ei gytuno hyd yn hyn.<br>Bydd hefyd talebau ar gael i'w rhannu drwy brosiectau'r festri.<br>Bydd SP a GJ yn ddiolchgar i gael gwybod am rai sydd heb ymateb ac yn methu a mynychu prosiectau'r festri.<br>Ni fydd posib defnyddio'r talebau ar gyfer cwrw, sigaréts a sothach.<br>Trafodwyd y posibilrwydd i'w cyfnewid yn yr Iard Glo.<br>Gofynnodd GJ i bawb fod yn wyliadwrus am geisiadau gan wirfoddolwyr i ymddiried yn yr achos.<br>Gan nad oes lle canolog i drigolion Pistyll, cytunodd GJ i hysbysebu'r achos ar FB ac SP i hysbysebu yn ffenest Siop y Groes.<br><br>Bydd SP a GJ yn mynychu cyfarfod pellach yn ystod yr wythnos gyda swyddog i gytuno ar y pecynnau ymhellach. |
| **9.** | **CRONFA COVID 2019 – TŶ DOCTOR, NEFYN** |
| | Adroddodd y clerc cais am wybodaeth gan Dŷ Doctor, Nefyn parthed bwriadau'r Cyngor tuag at ganran ôl dal o arian dros ben o'r nawdd tuag at PPE a roddwyd iddynt yn ystod yr argyfwng pandemig gan y Cyngor Cymuned. Cytunodd yr aelodau ofyn i'w dderbyn yn ôl i gyfrif y Cyngor. Y clerc i weithredu. |
| **10.** | **PRAESEPT** |
| | Oherwydd yr hinsawdd pwysa costau byw i deuluoedd pleidleisiodd yr aelodau i beidio â chodi'r Preacept am 2023/24 |

| | |
|---|---|
| **11.** | **HYFFORDDIANT** |
| | Rhannodd y clerc ymddiheuriadau darlunydd hyfforddiant Un Llais Cymru am gamgymeriad parthed darpariaeth linc i LF ar fodiwl 10 - Sgiliau Cadeirio.<br>Cytunodd i geisio a darparu hyfforddiant Cymraeg wedi derbyn ceisiadau'r Cyngor. Bydd yn rhannu amserlen i'r dewisiadau yn y dyfodol agos.<br>Roedd GJ wedi llythyru yn ystod y mis gydag Un Llais Cymru a Planning Aid Wales i ddarganfod beth yw'r broblem gydag paratoi hyfforddiant yn y Gymraeg ac yn siomedig iawn gyda'r ymatebion.<br>Cytunodd ar ran y Cyngor godi'r achos gyda Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg. |
| **1.** | **Y GANOLFAN** |
| | Nid oedd diweddariad pellach i'w gynnig. Ail adroddodd SP bod yr holl waith sydd ei angen yn y Ganolfan bellach wedi ei gostio ond nid oedd wedi derbyn diweddariad am y ffigwr terfynol. |
| **2.** | **MAES PARCIO, NANT** |
| | Nid oedd diweddariad pellach. |
| **3.** | **MATERION LLEOL** |
| | 1. **<u>CWYNION I'R CLERC EU HADRODD I'R CYNGOR SIR.</u>**<br><br><u>TYLLAU YN Y BRIFFORDD</u><br>• Ger Tŷ Alpha Llithfaen<br>• Ger Tŷ mawr, Lôn Groes, Pistyll<br>• Ger Mynydd Heulog<br><br><u>DDIFFYGION GYDA THRAENIAU</u><br>Traeniau o Dynn Parc i Gors Lwyd Llithfaen angen eu hagor, llawn cerrig.<br><br>2. **<u>PARCIO YN BERYGLUS</u>**<br>Y clerc i lythyru a Mr. Jones yn gofyn iddo beidio â pharcio ar y palmant tŷ allan i'w dy gan fod cymydog wedi disgyn i'r brifordd yn ddiweddar yn ceisio osgoi ei gar.<br>GJ i rannu ei gyfeiriad gyda'r clerc. |
| **3.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | a) **<u>DIWEDDARIAD GAN BWYLLGOR GWASANAETHAU AMBIWLANS BRYS AR Y GWASANAETH ADALW A THROSGLWYDDO MEDDYGOL BRYS (EMRTS CYMRU)</u>**<br><br>Adroddodd y clerc y sefyllfa bresennol ar 6 Ionawr 2023. Nodwyd ei bod eisoes wedi gyrru pryderon y Cyngor ymlaen.<br>Ni fydd y broses ffurfiol ar yn cychwyn ar y 9 Ionawr 2023. Maent yn gobeithio rhannu gwybodaeth cyn gynted â phosibl, ac yn awr yn disgwyl i'r rhain fod ar gael erbyn dechrau mis Chwefror. Byddent yn rhoi gwybod cyn dechrau ar y broses ymgysylltu ffurfiol a bydd amrywiaeth o ffyrdd y bydd modd cymryd rhan. Bydd hyn yn cynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb, cyfarfodydd ar-lein a chyfleoedd i ddarparu gwybodaeth iddynt.<br><br>Bydd y broses ffurfiol o ymgysylltu â'r cyhoedd mewn dwy ran: |

Bydd Rhan 1 yn:
• Disgrifio sut mae GATMB yn gweithio nawr
• Trafod beth sy'n rhaid ei sefydlu a beth sy'n rhaid ei gael (cyfyngiadau)
• Trafod sut rydym yn mesur manteision a risgiau pob opsiwn (amcanion buddsoddi)
• Trafod sut mae'r broses yn adlewyrchu fod rhai buddion yn bwysicaf nag eraill (pwysoliadau) Adolygu ar ôl chwe wythnos i ystyried y broses hyd yma; trafodaethau, cytuno ar y cyfyngiadau, amcanion buddsoddi a phwysiadau i lywio meysydd pellach ar gyfer modelu.

Bydd Rhan 2 yn:
• Cyflwyno opsiynau yn cynnwys manteision a risgiau (a chasglu adborth a safbwyntiau gan y cyhoedd, cleifion, staff a rhanddeiliaid). Ffeithiau allweddol:
• Nid oes penderfyniad wedi ei wneud eto
• Mae cymunedau wedi codi pryderon am y posibilrwydd o gau'r canolfannau awyr presennol yn Y Trallwng a Chaernarfon
• Mae aelodau'r cyhoedd wedi bod yn codi pryderon ac yn gofyn cwestiynau gan ddefnyddio Gwefan PGAB
• https://pgab.gig.cymru/gwasanaethau-a-gomisiynir/gwasanaeth-adalw-athrosglwyddo-meddygol-brys-gctmb/cdg/
• Bydd ymgysylltu ffurfiol â'r cyhoedd yn cadarnhau'r sefyllfa sylfaenol bresennol, yn llywio datblygiad ffiniau neu derfynau i'w defnyddio ac opsiynau a fydd wedyn yn cael eu modelu. Bydd hyn yn sicrhau bod manteision neu anfanteision pob opsiwn yn cael eu nodi'n glir a'u pwyso a'u mesur fel rhan o broses agored, dryloyw a chadarn. Camau nesaf:
• Tîm PGAB i barhau i weithio gydag arbenigwyr mewn byrddau iechyd a Chynghorau Iechyd Cymuned i gynhyrchu deunyddiau ymgysylltu ar gyfer y gwaith gan gynnwys amserlenni
• Disgwyl dechrau ymgysylltu ffurfiol pan gytunir ar y deunyddiau ymgysylltu ond ni fydd hyn yn dechrau cyn Chwefror 2023 – byddwn yn cadarnhau ymlaen llaw
• Disgwylir penderfyniad terfynol gan PGAB yn 2023 yn dilyn cyfnod o ymgysylltu â'r cyhoedd na fydd yn para llai nag 8 wythnos (gydag adolygiad a'r ôl 6 wythnos)

**b) RHYBUDD AR GYFER Y 17EG O IONAWR, 2023**

Cau Ffordd Ddi-ddosbarth Sy'n Arwain At Felin Carnguwch A Carnguwch Bach, Llithfaen O Bwynt Sydd Yn Gorwedd Oddeutu 250m O'i Gyffordd Gyda'r Ffordd Dosbarth Iii Sy'n Gorwedd I'r Gogledd Ddwyrain O Fryn Celyn Isaf, Llithfaen Gan Deithio Mewn Cyfeiriad De Dwyreiniol Am Oddeutu 75m.

**c) NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DERFYNAU CYFLYMDER**

Adroddodd y clerc bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno terfyn cyflymder 20mya ar ffyrdd cyfyngedig ledled Cymru o fis Medi 2023, a hynny fel rhan o ymdrechion i wneud strydoedd a chymunedau yn fwy diogel a chynyddu cyfleoedd i gerdded a beicio.

O ganlyniad, mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu cyflwyno nifer o newidiadau i derfynau cyflymder yn y sir. Bydd y terfynau cyflymder 30mya presennol yn gostwng i 20mya yn y mwyafrif o safleoedd, ond gyda rhai ffyrdd lle mae yna gyfiawnhad bydd y cyfyngiadau yn aros yn 30mya.

Mae modd gweld y map a'r hyn sy'n cael ei gynnig ar ffyrdd Gwynedd yma:
Cynllun 20MYA - 20MPH Project (arcgis.com)

Ni dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r cynigion gan yr aelodau -
Sylwadau i gadw golwg ar gyfyngiadau'r lon i Nant.

| 4. | CYLLID |
|---|---|

a) **CYSONIAD A RHAGAMCANION 2022/23**
Cymeradwywyd y cysoniad a'r rhagamcanion gyda'r aelodau yn cytuno ei gywirdeb.

b) **CYFRIFLEN BANC**

| **CYFRIF CYFREDOL – 1 o Ragfyr i 31 o Ragfyr 2022** | |
|---|---|
| | |
| Balans cychwynnol | 14,511.83 |
| Taliadau i mewn | 0.00 |
| Taliadau allan | 270.20 |
| Balans terfynol | 14,241.63 |

| **CYFRIF CADW – 7 o Dachwedd i 6ed o Ragfyr 2022** | |
|---|---|
| | |
| Balans cychwynnol | 2,662.00 |
| Taliadau i mewn | 2.80 |
| Taliadau allan | 0.00 |
| Balans terfynol | 2,664.80 |

c) **TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **201262** | G. Thomas | Cyflog a threuliau | **264.00** |
| **201261** | Ffion Jones | Arwyddion Cymraeg | **15.90** |
| **201263** | D. Ellis | Deffiblwr | **47.94** |

| 5. | CYFARFOD NESAF Y CYNGOR |
|---|---|

14eg o Chwefror, 2023 yn Nhabor